

3 Mawrth 2017

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus ar gyfer Pwyllgorau

### Annwyl Gadeiryddion

Un o'r eitemau a oedd ar yr agenda yn Fforwm y Cadeiryddion ar 7 Rhagfyr oedd y cymorth Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) sydd ar waith i helpu Pwyllgorau a Chadeiryddion, sy'n cynnwys sesiynau cynllunio strategol a gynhaliwyd gan bob Pwyllgor yn ystod yr hydref, technegau holi a hyfforddiant i Gadeiryddion.

Yn y cyfarfod roedd Cadeiryddion yn awyddus bod rhagor o gymorth o ran gofyn cwestiynau a chasglu tystiolaeth ar gael i Aelodau, i sicrhau bod amser a dreulir yn holi tystion mewn pwyllgorau mor effeithiol â phosibl. Gellir darparu cymorth o'r fath drwy bwyllgorau. Fel arall, gallai Aelodau ddewis mynd i gyfres o ddsbarthiadau meistr ar holi. Cynhelir y dosbarth cyntaf ar **9 Mawrth 12.30 – 13.30**. Yn dilyn y dosbarthiadau meistr bydd cymorthfeydd un-i-un er mwyn cael cyngor personol.

Trafododd Cadeiryddion brofiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, a gafodd adborth ar sesiynau craffu a gynhaliwyd ers cael cymorth ar holi. Gwnaeth Cadeiryddion gais i ragor o wybodaeth gael ei rhannu yn ysgrifenedig.

### Profiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Ar ddechrau mis Medi 2016, cynhaliodd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sesiwn strategaeth gyda Kate Faragher o Bespoke Skills. Cafodd y sesiwn ei chynllunio gan dîm integredig y Pwyllgor, y tîm DPP ac ein hwylusydd allanol, gan ystyried anghenion a dewisiadau y Pwyllgor. Trafododd y Pwyllgor:

- dulliau o weithio
- diben
- etifeddiaeth bosibl



- cyfathrebu; a
- thechnegau holi.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnal sesiwn ddilynol i fonitro'r gwaith o weithredu'r camau y cytunwyd arnynt yn y sesiwn. Cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw ym mis Tachwedd 2016 gan ddefnyddio clipiau o'r Pwyllgor mewn sesiwn i ddarparu adborth penodol ar dechnegau holi. Cyflwynwyd technegau holi ychwanegol hefyd.

Yn ôl yr adborth, roedd Aelodau yn teimlo bod y sesiwn yn heriol ond yn ddefnyddiol iawn. Gofynnwyd am sesiynau dilynol pellach, i'w darparu yn rheolaidd er mwyn helpu'r Pwyllgor i gyfuno arfer gorau a nodwyd yn eu gwaith, ac i barhau i geisio anelu at ragoriaeth yn eu rôl craffu. Mae sawl Pwyllgor arall wedi achub ar y cyfle i adeiladu a myfyrio ar eu trafodaethau yn ystod eu sesiynau cynllunio strategol, gan integreiddio hyn i'w ffyrdd o weithio yn y dyfodol.

### **Cymorth pwrpasol**

Mae gennym fynediad at ystod o arbenigwyr a all gynnig amrywiaeth eang o gymorth yn unol â gofynion y Cadeirydd a'r Pwyllgor:

- Dull Strategol y Pwyllgor: nodi diben a methodoleg
- Casglu Tystiolaeth: canfod y bwloch gwybodaeth a chanfod a phwyso'r ffeithiau neu'r safbwyntiau allweddol
- Holi: cael y gorau allan o dystion, gofyn y cwestiynau iawn a chael yr atebion sydd eu hangen arnoch
- Craffu Deddfwriaethol: o'r cyffredinol i'r penodol, egwyddorion i weithdrefn, cymorth pwrpasol yn dibynnu ar y Bil a phrofiad a dewisiadau'r Pwyllgor.

Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion a dewisiadau pob Pwyllgor. Er enghraifft, fel rhan o'r rhaglen hon, cafodd y Pwyllgor Cyllid sesiwn friffio ar Fil Treth Dirlenwi (Cymru) gan Daniel Greenberg, cyfreithiwr yn arbenigo mewn deddfwriaeth gyda phrofiad drafftio helaeth. Cynhaliodd y Pwyllgor Deisebau sesiwn ar strategaeth y cyfryngau ac mae rhai Cadeiryddion Pwyllgorau wedi cael hyfforddiant ar effaith bersonol, presenoldeb yn y cyfryngau a chyflwyno areithiau.



Mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda chyflenwyr i sicrhau eu bod yn deall cyd-destun gwleidyddol Cymru, profiad y Pwyllgor a ffyrdd o weithio cyn datblygu opsiynau i'r Cadeirydd a'r pwyllgor ehangach i'w hystyried. Darperir yr hyfforddiant mewn ffordd ac amser sy'n addas i'r Pwyllgor.

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth am y cymorth y gellid ei ddarparu i'ch Pwyllgor, cysylltwch â'ch Clerc, neu gyda mi ar 0300 200 6332.

Yn gywir

Abigail Phillips

Rheolwr Prosiect Datblygiad Proffesiynol

Cc: Jayne Bryant AC, Russell George AC, John Griffiths AC, Mike Hedges AC, Huw Irranca-Davies AC, Bethan Jenkins AC, Dai Lloyd AC, Lynne Neagle AC, Nick Ramsay AC, Mark Reckless AC, David Rees AC, Simon Thomas AC

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

